

**CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL**



Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun 6 o Ragfyr 2021 am 7:30pm drwy Zoom.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Jim Bryan, Heather Williams, Christine Ellis, Gavin Harris and Mike van der Eijk

Bu i'r Cynghorydd Menna Jones rannu'r pwyntiau canlynol i'r Pwyllgor Amwynderau:

- Dadorchuddiwyd plac yn cydnabod gwaith Mr Andrew Phillips MBE yn ddiweddar gan Mrs Phillips. Roedd y plac, a osodwyd ar fainc newydd, wedi'i leoli yn yr ardd yr oedd Mr Phillips yn garddio, ar gornel Heol y Parc a Borthyn.
- Llongyfarchwyd y Cynghorydd Stephen Beach ar ei etholiad diweddar i rôl o fri.
- Roedd y goeden Nadolig a'r goleuadau wedi'u gosod yn Sgwâr San Pedr. Diolchwyd i Clogau am ei nawdd a diolchodd i'r Maer am gynnu'r goleuadau.

74. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Rachel Lewington.

75. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

76. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

77. MATERION YN CODI

Cofnod 56 a 77. Prosiect Plannu Coed Aruthrol: Plannwyd 420 o goed yn Llanfwrog ar 4 a 5 Rhagfyr. Cadarnhawyd y byddai Pwyllgor Rheoli Llanfwrog gyfrifol am eu cynnal gyda chefnogaeth a ddarperir gan grwpiau gwirfoddol.

Cofnod 67. Ymgynghoriad Prosiect Creu Coetir: Cadarnhaodd y Clerc fod sylwadau'r Pwyllgor wedi cael eu bwydo i'r ymgynghoriad. Hefyd, rhoddwyd adborth i Dîm Cefn Gwlad y Cyngor Sir ar gyflwr cyffredinol y llyn yng Nghae Ddol. Derbyniwyd ymateb yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y pwll yn y dyfodol a chynigiwyd ymweliad safle. Ystyriodd yr aelodau gyfarfod safle yng Nghae Ddol yn briodol i ystyried cynlluniau'r llyn yn y dyfodol ac i gerdded trwy uchelgeisiau prosiect Lefelu i fyny Cae Ddol a Choridorau Gwyrdd.

Cofnod 69. Cwningar y Castell: Adroddodd y Clerc y cysylltwyd â Chyngor Sir Dinbych a rhoi ger eu bron pryderon y Cyngor Tref, hefyd gofynnwyd i'r Cyngor Sir gynnal arolwg ac asesiad risg llawn ar wal derfyn Cwningar y Castell a chyhoeddi adroddiad. Derbyniwyd ymateb cychwynnol yn amlinellu bod y wal wedi'i harchwilio a hyd nes ei bod yn ddiogel ac yn sefydlog, byddai llwybr Cwningar y Castell yn parhau ar gau i'r cyhoedd. Disgwylid am wybodaeth fanwl bellach. Cadarnhaodd y Cynghorydd Heather Williams hefyd nad oedd y wal derfyn (a adeiladwyd yn yr 1800au) wedi'i chynnwys mewn gwaith yr oedd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun yn ymwneud ag ef.

PENDERFYNWYD: *Trefnu cyfarfod ar y safle yng Nghae Ddol gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Dinbych (Aelodau a Swyddogion) a chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Amwynderau i ystyried y cynlluniau ar gyfer llyn Cae Ddol ac i gerdded yng Nghae Ddol i gyfarwyddo â uchelgeisiau prosiect Cronfa Codi'r Gwastad.*

78. PROSIECT GODI'R GWASTAD - DIWEDDARIAD

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ar weithgareddau yn ymwneud â Dyfodol Ruthin a chais y Gronfa Codi'r Gwastad a oedd yn cael ei oruchwylio gan Weithgor Dyfodol Rhuthun. Roedd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych wedi cymeradwyo'r prosiectau arfaethedig i'w cynnwys yn y cais, côst dangosol pob prosiect ac wedi cefnogi thema'r cais. Yn gynwysedig yn y cais roedd (i) gwelliannau i manau cyhoeddus yn Sgwâr San Pedr a'r cyffiniau a (ii) gwelliannau o fewn Cae Ddol ac ardaloedd cysylltu. Nodwyd bod y ddau brosiect wedi tynnu ar waith Dyfodol Rhuthun yn ogystal ag adroddiadau ac arolygon blaenorol a gynhaliwyd ym 1971 a 1996.

Dywedodd y Cynghorydd Gavin Harris fod cynnig y Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer Cae Ddol yn rhoi cyfle i gysylltu manau gwyrdd y dref, gwella hygyrchedd a darparu cynnig mwy cydlynol a gwell i'r cymunedau yr oedd yr ardaloedd hyn yn eu gwasanaethu. Roedd cysylltiad cadarn rhwng y prosiect a thema treftadaeth a diwylliant y Gronfa Codi'r Gwastad.

Gydag arweiniad gan y Cynghorydd Harris, bu'r Aelodau'n ystyried dogfen waith ddrafft a oedd yn amlinellu prif egwyddorion, uchelgeisiau a nodau prosiect Cae Ddol a Choridorau Gwyrdd ynghyd â chostau dangosol. Byddai Cyngor Tref Rhuthun yn rhoi ystyriaeth ffurfiol i'r ddau brosiect yn y Flwyddyn Newydd a byddai proses o ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori ehangach yn cael ei phennu i alluogi sylwadau ac adborth ar y prosiectau ar yr adeg briodol. Byddai angen mewnbwn pellach gan weithwyr proffesiynol dylunio, peirianeg a thirwedd i lywio manylion y gwaith sydd i'w wneud.

Dywedwyd wrth yr aelodau, er y byddai canlyniad cadarnhaol i'r Gronfa Codi'r Gwastad i'w groesawu yn fawr, roedd y ddogfen waith ddrafft yn darparu sylfaen ar gyfer strategaeth y Pwyllgor Amwynderau y gellid ychwanegu ati a'i newid fel y bo'n briodol.

Gwerthfawrogodd yr Aelodau'r gwaith a wnaed gan y Cyng. Gavin Harris i lywio'r prosiectau yn y cais.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad ar weithgareddau mewn perthynas â chais y Gronfa Codi'r Gwastad a chefnogi'r cynigion a amlinellwyd ar gyfer gwelliannau o fewn Cae Ddol a chysylltu ardaloedd gwyrdd llawn.*

79. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai nos Lun 10 o Ionawr 2022 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 pm.*